Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Healthcare Inspectorate Wales

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da

Checking people in Wales are receiving good care

# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG30954 ISBN digidol 978-1-78859-014-3

# Cynnwys

1. Diben ........ 5

2. Trosolwg ........ 5

3. Negeseuon allweddol ........ 5

4. Canfyddiadau'r arolygiad ........ 5

5. Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith ........ 6

6. Llywodraethu ........ 6

7. Ymgysylltu ........ 6

8. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig. 6

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**I wirio bod pobl yng Nghymru yn cael gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- Uniondeb: rydym yn gweithredu mewn modd agored a gonest
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: rydym yn gweithredu mewn modd effeithlon, effeithiol a chymesurol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Diben

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC arolygiad yng ngwasanaeth Bron Brawf Cymru, Caerdydd, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 3. Negeseuon allweddol

Nododd yr arolygiad a gynhaliwyd o fewn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fod arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan staff uwch. Roedd yn amlwg o sylwadau cleifion bod yr agwedd, y dull o weithredu, a'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon uchel ar draws yr holl adran. Cyflwynwyd cynllun gwella yn ddi-oed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn canfyddiadau ein harolygiad.

Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u dwyn at sylw AGIC yn ystod 2016-17.

# 4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC un arolygiad mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Canfu'r arolygiad fod arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan staff uwch clinigol yr adran, ac roedd y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n rhagorol gyda'i gilydd. Roedd yn amlwg o sylwadau cleifion bod yr agwedd, y dull o weithredu, a'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon uchel ar draws yr holl adran.

Nid oedd unrhyw risg i ddiogelwch cleifion ac ni wnaeth AGIC ganfod unrhyw doriadau mewn perthynas â’r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Canfu AGIC fod angen diweddaru'r weithdrefn ysgrifenedig fel ei bod yn nodi hunaniaeth a hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr, fel y'u diffinnir o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Daeth i'r amlwg bod unigolion yn gwneud swyddogaethau gweithredwyr nad oeddent, yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, wedi cael hawl y cyflogwr i wneud hynny.

# 5. Camau dilynol a sicrwydd ar unwaith

Nid anfonwyd llythyrau dilynol na llythyrau sicrwydd ar unwaith i'r Ymddiriedolaeth.

# 6. Llywodraethu

Cafodd yr Ymddiriedolaeth gyfle yn ystod 2016-17 i ddangos ei bod yn sefydliad dysgu.  Yn ystod ein harolygiad, gwnaeth y tîm o fewn yr adran ymdrin â'r arolygiad mewn ffordd gadarnhaol, ac roeddent yn awyddus i gael adborth i gefnogi eu dull ar gyfer cynnal safonau uchel o ofal a gwella'n barhaus. Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd cynllun gwella yn ddi-oed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 7. Ymgysylltu

Cyfarfu Prif Weithredwr AGIC a Rheolwr Perthynas AGIC â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2016. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cyflwynwyd trosolwg o adroddiad 2015-16 Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae AGIC yn parhau i weithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer arolygiadau o Bractisau Deintyddol a Chyffredinol (meddygon teulu). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod gweithredol o Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid Practisau Deintyddol a Chyffredinol AGIC.

# 8. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

### Arolygiad yn ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

| | |
|---|---|
| 1. Canolfan Bron Brawf Cymru, Caerdydd | 2 Tachwedd 2016 |